

GIG CYMRU
NHS WALES

Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG
Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services
University NHS Trust








# Cynllun Ansawdd Strategol 2025-2028

---

Cyhoeddwyd: 29/05/2025

# Cynnwys


**Rhagair** ........ 3

**Cyflwyniad** ........ 4

**Iechyd y Boblogaeth** ........ 5

1. Adeiladu capasiti a gallu iechyd y cyhoedd ........ 6
2. Data, mewnwelediadau, tystiolaeth a gwerthusiad: ........ 7
3. Arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol: ........ 8
4. Partneriaethau system: ........ 9

**Gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth** ........ 9

**Gofal sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn** ........ 11

Cyfathrebu ........ 11

Clywed llais ein dinasyddion ........ 12

Cynnwys y gymuned ........ 14

Rhianta Corfforaethol ........ 15

**Arweinyddiaeth a llywodraethu** ........ 15

Datblygu Arweinyddiaeth ........ 15

Llywodraethu Ansawdd ........ 17

**Systemau Rheoli Ansawdd** ........ 18

Rheoli Ansawdd ........ 18

Gwella Ansawdd ........ 19

Sicrhau Ansawdd ........ 20

Cynllunio Ansawdd ........ 21

**Cynhwysiant a Thegwch** ........ 24

**Technoleg ac Arloesi** ........ 26

**Monitro Gwasanaeth Ansawdd** ........ 27

# Rhagair

Fel Arweinwyr y Bwrdd ar gyfer Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad y Claf, rydym yn falch o gyflwyno'r Cynllun Ansawdd Strategol 2025–2028.

Mae'r map ffordd cynhwysfawr hwn yn amlinellu ein gweledigaeth i wella ansawdd y gofal a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Mae'r cynllun yn adlewyrchu ein hymrwymiad diysgog i ragoriaeth mewn gofal iechyd ac mae'n gynnyrch cydweithio ystyrlon â'n cleifion, staff a chymunedau. Rydym wedi gwrando'n weithredol ar leisiau'r rhai rydym yn eu gwasanaethu a'r rhai sy'n gwasanaethu, gan sicrhau bod ein strategaeth wedi'i gwreiddio mewn anghenion a dyheadau'r byd go iawn.

Rydym wedi ymrwymo i welliant parhaus, gan ymdrechu i sicrhau bod pob claf yn derbyn gofal tosturiol a phersonol. Mae ein gweledigaeth yn cynnwys cryfhau partneriaethau system ac alinio ein gwasanaethau â'r amcanion iechyd a gofal ehangach ar draws GIG Cymru. Mae'r dull hwn yn ategu ein hymrwymiad i gefnogi iechyd a lles ein staff, gwirfoddolwyr, a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn eich gwahodd i ymuno â ni ar y daith hon tuag at ddyfodol disgleiriach ac iachach i bawb.



Liam Williams

**Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd**




Bethan Evans

**Cyfarwyddwr Anweithredol**

# Cyflwyniad

Mae ein Cynllun Ansawdd Strategol ar gyfer 2025-28 yn amlinellu dull cynhwysfawr a blaengar o wella ansawdd y gwasanaethau gofal iechyd a ddarperir gan Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru. Fe'i cynlluniwyd i fynd i'r afael ag anghenion esblygol ein poblogaeth, gan sicrhau bod ein gwasanaethau nid yn unig yn effeithlon ac yn effeithiol ond hefyd yn deg ac yn gynhwysol.

Ein gweledigaeth yw cyflawni rhagoriaeth mewn gofal iechyd drwy ganolbwyntio ar feysydd allweddol megis y canlynol:




Drwy feithrin gallu a chapasiti o fewn ein timau a defnyddio data a mewnwelediadau ar gyfer gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, ein nod yw cryfhau partneriaethau system i sicrhau bod ein gwasanaethau'n cyd-fynd â'r amcanion iechyd a gofal ehangach ar draws GIG Cymru.

Mae'r cynllun yn pwysleisio pwysigrwydd systemau rheoli ansawdd a gwelliant parhaus, gan amlygu ein hymrwymiad i gynhwysiant a thegwch, gan sicrhau bod pob claf yn derbyn gofal tosturiol a phersonol. Yn ogystal, mae'r ddogfen yn amlinellu ein dull o rianta corfforaethol, datblygu arweinyddiaeth, a chynnwys y gymuned, gan ddangos ein hymroddiad i gefnogi iechyd a lles ein staff, gwirfoddolwyr a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Agwedd allweddol ar y cynllun strategol hwn yw ei ddull cyd-gynhyrchu, a ddatblygwyd trwy wrando ar ein pobl, y sefydliad ehangach a'n rhwydweithiau cymunedol. Drwy ymgysylltu â'n Rhwydwaith Pobl a’r Gymuned, rydym wedi cynnwys mewnwelediadau o brofiadau bywyd ac adborth cymunedol, gan sicrhau bod ein cynllun yn cyd-fynd ag anghenion a dewisiadau'r rhai rydym yn eu gwasanaethu. Er mwyn sicrhau bod ein Cynllun Ansawdd Strategol yn parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol, mae'n bwysig cynnal deialog agored gyda'r holl randdeiliaid i gasglu

mewnwelediadau ac awgrymiadau ar sut y gallwn addasu i amgylcheddau sy'n newid. Bydd gweithredu'r cynllun hwn yn hwyluso cyfathrebu agored i feithrin ymddiriedaeth a pherchnogaeth o ansawdd ein gwasanaethau.


Drwy’r cynllun hwn, byddwn yn gwella ein gallu i ddarparu gofal o ansawdd uchel, gwella canlyniadau cleifion, a gyrru arloesedd mewn gofal iechyd. Ein gweledigaeth hirdymor yw trawsnewid Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ddarparwr gofal o ansawdd uchel y gellir ymddiried ynddo, gan sicrhau bod cleifion yn derbyn y cyngor a'r gofal cywir, yn y lle iawn, bob tro.

# Iechyd y Boblogaeth

Fel Ymddiriedolaeth, ein nod yw sicrhau bod ein rhyngweithiadau dyddiol â'n cleifion, y cyhoedd a'n pobl yn gwella iechyd a lles. Nod ein Cynllun Ansawdd yw hyrwyddo mentrau allweddol i fynd i'r afael â heriau iechyd y boblogaeth yng Nghymru drwy atal afiechyd, lleihau risgiau yn y dyfodol, ac eiriol dros ffyrdd o fyw a dewisiadau iach, gan helpu ein cleifion, staff a gwirfoddolwyr i aros yn iach.

> Bydd gwasanaeth ambiwlans o safon yn darparu **dull iechyd y boblogaeth**, sy'n anelu at "wella canlyniadau iechyd corfforol a meddyliol a hyrwyddo lles, gan leihau anghydraddoldebau iechyd o fewn y boblogaeth" (Buck *et al.* 2018).

Mae Cymdeithas Prif Weithredwyr Ambiwlansys (AACE) yn cydnabod y cyfle i gryfhau rôl y sector ambiwlans wrth **leihau anghydraddoldebau iechyd**, ac mae wedi datblygu pecyn cymorth gweithredu sy'n nodi sut y gallai gwasanaethau ambiwlans fynd ati i wneud hyn drwy bedwar galluogwr allweddol:



Mae gwaith eisoes wedi dechrau ar sut y gallwn ganolbwyntio ar y galluogwyr hynny yng Nghymru. Ym mis Ebrill 2024, cwblhawyd 'matrics aeddfedrwydd' i nodi ein cyflawniadau presennol yn erbyn y pedwar galluogwr allweddol a nodwyd bylchau a chyfleoedd ar gyfer ein dull iechyd poblogaeth yn y dyfodol.

## 1. Adeiladu capasiti a gallu iechyd y cyhoedd:

Mae gwasanaeth iechyd o safon yn cynnwys atal. Mae'n bwysig ein bod ni i gyd yn cydnabod ein rôl o ran hyrwyddo atal a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â chefnogi ein cleifion, ni ein hunain, ein cydweithwyr a'n cymunedau i fyw bywydau iach. Bydd nodi cyfleoedd i gefnogi ein pobl i gael sgiliau allweddol yn hyn, yn ogystal â mewnbwn gan arbenigwyr iechyd y cyhoedd, yn cefnogi WAST i ddarparu gwasanaeth sydd ag iechyd y boblogaeth wedi'i wreiddio ynddo.



## 2. Data, mewnwelediadau, tystiolaeth a gwerthusiad:



Mae gwasanaeth iechyd sy'n cael ei yrru gan ansawdd yn defnyddio data a mewnwelediadau i gyflawni dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gyda monitro a gwerthuso rheolaidd i sicrhau ei fod yn darparu'r gwasanaeth cywir i ddiwallu anghenion y boblogaeth. Rydym yn wynebu poblogaeth sy'n newid, gyda phoblogaeth sy'n heneiddio a lefelau uwch o gyflyrau iechyd cymhleth. Drwy droi data yn wybodaeth, byddwn yn deall lefel yr iechyd sydd ei hangen yn y boblogaeth nawr ac ar gyfer y dyfodol. Wrth i ni ddeall anghydraddoldebau iechyd yn well, gallwn ddarparu ac addasu gwasanaethau'n well i gyflawni amcanion dull iechyd y boblogaeth.

Mae angen i wasanaeth iechyd o safon fod wedi'i gysylltu'n dda a gallu cael mynediad at yr wybodaeth gywir ar yr amser cywir. Pan fydd darparwyr gofal iechyd yn rhannu data yn ddiogel ac yn effeithiol, mae'n helpu i deilwra gofal i anghenion unigol a gwella canlyniadau. Mae ein Cynllun Digidol ar gyfer 2024-29 yn amlinellu sut y byddwn yn defnyddio data, gwybodaeth a mewnwelediadau i gefnogi gwneud penderfyniadau gwell a gwella'r gofal a ddarparwn. Rydym eisoes wedi dechrau'r gwaith hwn- er enghraifft, drwy chwiliad Gwasanaeth Demograffig Cymru, sy'n cysylltu cofnodion cleifion gan ddefnyddio rhifau'r GIG. Mae'r cam pwysig hwn yn ein helpu i ddeall taith lawn gofal yn well, gan gefnogi gwasanaethau mwy cydgysylltiedig a'n symud yn agosach at ddull sy'n seiliedig ar werthoedd ac sy'n rhoi canlyniadau cleifion yn gyntaf.

## 3. Arweinyddiaeth ac atebolrwydd strategol:

Bydd gwasanaeth iechyd o safon yn cynnwys iechyd y boblogaeth yn rhan annatod o strategaeth a pholisi, gyda chefnogaeth ac eiriolaeth gan uwch arweinwyr. O fewn WAST, mae ein strategaeth 'Sicrhau Rhagoriaeth, Ein Gweledigaeth ar gyfer 2030' yn tynnu sylw at bwysigrwydd iechyd y boblogaeth a darparu gofal teg, ond gellir gwneud mwy i gryfhau'r dull hwn a chynyddu atebolrwydd i bawb yn y sefydliad ystyried sut y gallwn gefnogi ein cleifion, a'n pobl, i gael y canlyniadau iechyd a'r lles gorau posibl.



## 4. Partneriaethau system:




Bydd gwasanaeth iechyd o safon yn gweithio gyda darparwyr iechyd a gofal eraill i gefnogi'r canlyniadau iechyd gorau drwy gydol taith claf, gyda phawb yn gweithio tuag at yr un amcanion iechyd y boblogaeth. Yn unol â Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023, byddwn yn parhau â'n taith tuag at 'ddull systemau cyfan', gan ddeall sut mae'r penderfyniadau a wnawn yn effeithio ar ein partneriaid system ar draws GIG Cymru a'r gwasanaethau brys.  Byddwn yn cydweithio â phartneriaid system i nodi gwelliannau, arloesiadau a thrawsnewidiadau sy'n diwallu anghenion newidiol defnyddwyr ein gwasanaeth yn gyson ac yn gynaliadwy ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol a diogel.

# Gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth


Mae ein strategaeth hirdymor yn pwysleisio pwysigrwydd cyflawni canlyniadau iechyd gorau posibl i'n cleifion drwy ddarparu gwasanaethau yn y modd mwyaf effeithlon a **chanolbwyntio ar werth**. Gellir ystyried gwerth ar draws pedwar piler:

- Gofal priodol i gyflawni nodau personol claf (gwerth personol)
- Cyflawni'r canlyniadau gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael (gwerth technegol)
- Dosbarthu adnoddau teg ar draws pob grŵp cleifion/cleientiaid (gwerth dyrannol)
- Cyfraniad gofal iechyd at gyfranogiad cymdeithasol a chysylltedd (gwerth cymdeithasol)

Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori egwyddorion **gwerth personol** drwy fesur y canlyniadau sy'n bwysig i bobl a defnyddio data a deallusrwydd i ysgogi arloesedd, gwelliant a dysgu i ni fel sefydliad. Bydd ymgorffori methodolegau cyd-gynhyrchu a phrofiad bywyd yn ein hegwyddorion cynllunio ac arloesi, trwy ymgysylltu â'n Rhwydwaith Pobl a’r Gymuned, yn rhoi cipolwg ar sut y gallwn wella gwerth personol ein poblogaeth.

Wrth werthuso **gwerth technegol**, mae egwyddorion gofal iechyd sy'n seiliedig ar werth yn sicrhau bod yr adnoddau sydd ar gael yn cael eu defnyddio mewn modd teg, cynaliadwy a thryloyw i gyflawni canlyniadau a phrofiadau gwell i'n poblogaeth, a'n bod yn optimeiddio ein cyfraniadau at ymchwil ac arloesedd i gyflawni a gwerthuso arfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth a rhannu ein dysgu gyda'r sector ambiwlans ehangach. Wrth ystyried canlyniadau cleifion, mae'n hanfodol ystyried canlyniadau clinigol a chanlyniadau a adroddir gan gleifion, sy'n cynnwys effeithiau profiadol a pherthynol y gwasanaethau a dderbynnir. Bydd taro cydbwysedd rhwng y ffactorau hyn yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar werth, gan sicrhau defnydd cyfrifol o arian cyhoeddus i gyflawni canlyniadau gwell i gleifion.

Gan adeiladu ar waith y Cynllun Digidol 2024-2029 ac iechyd y boblogaeth, gyda ffocws ar fewnwelediadau a deallusrwydd data, a'r canlyniadau o'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer 'Sicrhau Rhagoriaeth' 2030, byddwn yn cryfhau sut rydym yn defnyddio ein data fel deallusrwydd i lywio sut mae adnoddau'n cael eu dosbarthu i ychwanegu **gwerth dyrannol,** gan hyrwyddo a monitro ar gyfer cydraddoldeb gwasanaethau drwy'r hyn a ddarparwn, a defnyddio ein deallusrwydd i lywio'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach lle canfyddir anghydraddoldebau neu fylchau.



Rydym yn chwarae rhan hanfodol wrth ddarparu **gwerth cymdeithasol,** nid yn unig drwy'r ffordd rydym yn darparu gofal i gleifion a'r cyhoedd, ond hefyd drwy sut rydym yn ymgysylltu â chymunedau, yn cefnogi lles, ac yn creu cyfleoedd cyflogaeth, gwirfoddoli a datblygu i bobl ledled Cymru. Wedi'i nodi yn ein hamcanion llesiant, fel sefydliad newydd ei enwi o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac yn unol â'n hamcanion strategol ar gyfer iechyd y boblogaeth a'n strategaeth hirdymor ar gyfer 2030, byddwn yn parhau i ddarparu ansawdd trwy fod yn gyflogwr cymdeithasol gyfrifol a chynhwysol, yn ogystal â pharhau â'n gwaith trwy ymgysylltu â gwirfoddolwyr a chymunedau ledled Cymru.




Wrth geisio cyflawni gwerth mewn gofal iechyd ledled Cymru, mae *strategaeth hyd at 2024* Gwerth Canolfan Iechyd Cymru yn amlygu pwysigrwydd dull system gyfan sy'n cwmpasu atal, diagnosis cynnar a chywir, ymyrraeth amserol, gofal parhaus, a chymorth diwedd oes. Yn unol â'r weledigaeth hon, byddwn yn parhau i ymgorffori egwyddorion sy'n seiliedig ar werth ar draws ein cyfarwyddiaethau a'n ffrydiau gwaith, gan weithio mewn partneriaeth ag arweinwyr systemau a nodi'r cyfraniadau unigryw ac ystyrlon y gall ein gwasanaeth ambiwlans eu cynnig i'r dirwedd iechyd a gofal ehangach yng Nghymru.

# Gofal sy’n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

## Cyfathrebu

Mae adborth gan ddefnyddwyr ein gwasanaeth yn atgyfnerthu bod gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn golygu bod yn barchus ac yn ymatebol i ddewisiadau, anghenion a gwerthoedd pob unigolyn. Mae cleifion yn gyson yn tynnu sylw at bwysigrwydd staff a gwirfoddolwyr empathig, gofalgar a chyfathrebol a all dawelu meddwl yn ystod sefyllfaoedd sy'n aml yn llawn straen - boed yn wyneb yn wyneb neu dros y ffôn. Rhaid i hyn gael ei ategu gan gyfathrebu clir o ansawdd uchel sy'n

trin cleifion fel partneriaid cyfartal ac yn cefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd. Wrth i ni symud ymlaen ar ein taith drawsnewid, mae'n hanfodol ein bod yn rhoi'r sgiliau a'r hyfforddiant i'n pobl gryfhau cyfathrebu tosturiol, gan sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â phob cymuned a diwallu anghenion a dewisiadau cleifion lle bynnag y bo modd.





Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn i sut mae'r sefydliad yn ymateb pan nad yw pethau wedi mynd yn dda. Rydym yn cydnabod bod sut rydym yn cyfathrebu ag unigolion sydd wedi cael profiadau negyddol yn hanfodol i ailadeiladu ymddiriedaeth yn ein gwasanaeth a sicrhau dysgu ystyrlon. Bydd ein dull yn ymgorffori arferion adferol fwyfwy, gan ganolbwyntio ar bersonoli ein hymatebion i gwynion, digwyddiadau diogelwch cleifion, hawliadau ac iawndal gan sicrhau ein bod yn mynd i'r afael â'r agweddau sydd bwysicaf i'r rhai yr effeithir arnynt ac yn archwilio cyfleoedd i wella'n llawn.

Yn unol â'r Ddyletswydd Gonestrwydd, byddwn yn parhau i adeiladu ar ein harferion o fod yn agored ac yn dryloyw wrth helpu cleifion a'u hanwyliaid i ddeall sut y darparwyd eu gofal, a lle bydd newidiadau'n cael eu gwneud i ddarparu gofal gwell neu brofiad gwell yn y dyfodol. Byddwn yn parhau i feithrin ein diwylliant o onestrwydd yn ein holl waith drwy addysg a hyfforddiant, gan gynyddu hyder ein pobl i gynnig ymddiheuriadau ystyrlon a chynnal sgyrsiau sensitif.  Er mai'r Tîm Diogelwch Cleifion sy'n arwain ar weithredu a monitro gweithrediad y Ddyletswydd Gonestrwydd, rhaid i ni i gyd ddeall ein cyfrifoldebau.

## Clywed llais ein dinasyddion


Gan sicrhau bod effaith y claf wrth wraidd pob penderfyniad a thrafodaeth, byddwn yn mabwysiadu dull cydweithredol o gynnal trafodaethau o ansawdd yn fewnol a chyda'n defnyddwyr gwasanaeth a'n partneriaid system. Byddwn yn adolygu ein

prosesau llywodraethu i gynnwys adolygiad blynyddol o'r camau gweithredu rydym wedi'u cymryd yn seiliedig ar ein Llais y Dinesydd ac yn sicrhau ein bod yn gwella ein dull o ddysgu yn barhaus yn y ffordd hon.

Mae gennym ymrwymiad cyffredin i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cyhoedd, gan gynnwys dysgu o brofiadau a chanlyniadau gwael, a meithrin diwylliant o welliant parhaus.

Yn draddodiadol, rydym wedi defnyddio metrigau sy'n seiliedig ar amser ar gyfer ein tri gwasanaeth (111, 999 a Gofal Ambiwlans) i fesur diogelwch cleifion a chanlyniadau clinigol. Rydym yn cydnabod yr angen am asesiad mwy cytbwys sy'n cynnwys mesurau diogelwch cleifion, mesurau profiadol, a'r berthynas rhwng mesurau proses (arwain) a chanlyniad (oedi). Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru greu categori porffor newydd y byddwn yn ei gyflwyno ar gyfer ymatebion i ataliadau y galon ac anadlol bywyd-neu-farwolaeth. Bydd y newidiadau cysylltiedig i'r targedau ymateb yn canolbwyntio ar ganlyniadau gyda chysylltiadau â'r gadwyn o fetrigau goroesi ar gyfer ataliad ar y galon a bwriad o gysylltu ein data â gwybodaeth y bwrdd iechyd i greu'r gronfa data cardiaidd genedlaethol.

Drwy ein Rhaglen Trawsnewid Model Clinigol, byddwn yn gweithredu'r categori porffor newydd hwn. Gyda chefnogaeth ffrwd gwaith metrigau, bydd y rhaglen yn datblygu dull cerdyn sgôr sy'n cyd-fynd â'n Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad wedi'i gydbwyso ar draws y pedwar cwadrant:



Mae'r dull mwy cytbwys hwn yn sicrhau bod perfformiad yn cael ei asesu drwy lens ehangach sy'n symud y tu hwnt i fetrigau sy'n seiliedig ar amser i gynnwys ffactorau allweddol fel diogelwch, profiad, ac agweddau perthynol ar ofal. Er bod datblygiad pellach o'r mesurau hyn yn parhau, mae ein Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad wedi'i gynllunio i hyrwyddo'r persbectif ehangach hwn

I gefnogi hyn, bydd hy rhaglen Trawsnewid Model Clinigol yn cael gwerthusiad cydweithredol ac annibynnol i asesu ei heffaith o fewn y Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad.

## Cynnwys y gymuned

Mae Rhwydwaith Pobl a'r Gymuned yr Ymddiriedolaeth yn cynnig llwyfan i aelodau'r cyhoedd gymryd rhan yn ein gwaith a chyfrannu ato. Rydym wedi ymrwymo i ehangu'r rhwydwaith i adlewyrchu amrywiaeth lawn y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn well. Mae cynlluniau ar waith i gynyddu aelodaeth gyda ffocws penodol ar oedran, daearyddiaeth, amrywiaeth, cydraddoldeb, cynhwysiant a chynrychiolaeth y Gymraeg. Nod y cynlluniau hyn, a ddatblygwyd drwy lens iechyd y boblogaeth ac sy'n cyd-fynd â Chynllun Tymor Canolig Integredig yr Ymddiriedolaeth, yw cryfhau cyfranogiad cymunedol ystyrlon a sicrhau bod pob llais yn cael ei glywed wrth lunio ein gwasanaethau.




Drwy ein cylch ymgysylltu parhaus â chleifion a'r cyhoedd, byddwn yn gweithio i roi sicrwydd ynghylch cydymffurfedd â'r Ddeddf Ymgysylltu Ansawdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol drwy gynyddu'r adrodd ar effeithiau a chanlyniadau ein gweithgareddau ymgysylltu a sicrhau bod profiadau ac adborth yn cael eu hystyried i lywio newid gwasanaeth.

### Rhianta Corfforaethol

> Mae rhianta corfforaethol yn cyfeirio at "gyfrifoldeb cyfunol partneriaid pan fydd plentyn yn mynd i ofal...i ddiogelu a hyrwyddo hawliau a chyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal". (*Llywodraeth Cymru 2023, Siarter Rhianta Corfforaethol - Addewid Cymru.*)

Rydym wedi ymrwymo i'n cyfrifoldebau fel Rhiant Corfforaethol ac wedi ymrwymo i fynd i'r afael ag anghenion penodol plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn yn golygu sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, bod eu barn yn cael ei hystyried, a'u bod yn cymryd rhan weithredol mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, gan eu cadw'n wybodus drwy gydol y broses. Rhaid i'n cyfathrebu fod yn glir, yn dosturiol, ac wedi'i deilwra i gefnogi eu dealltwriaeth a'u hyder. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiadau hyn yn wirioneddol, rhaid inni addasu ein systemau a'n ffyrdd o weithio. Gyda hyn mewn golwg, rydym wedi nodi camau gweithredu allweddol i gefnogi newid ystyrlon a pharhaol.

### 5 Cam Gweithredu Allweddol:

- Nodi plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal sy'n defnyddio gwasanaethau'r Ymddiriedolaeth.
- Cydweithio â phlant, pobl ifanc ac asiantaethau partner i ddeall eu hanghenion.
- Addasu systemau a phrosesau i ddiwallu'r anghenion hyn ar ôl eu nodi.
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i staff a gwirfoddolwyr WAST i gefnogi unigolion sydd â phrofiad o ofal yn well.
- Sicrhau bod lleisiau a dymuniadau plant a phobl ifanc sydd wedi cael profiad o ofal yn cael eu hystyried yn weithredol ym mhob penderfyniad.

## Arweinyddiaeth a llywodraethu

### Datblygu Arweinyddiaeth

Mae arweinyddiaeth rymusol a llywodraethu effeithiol yn hanfodol ar gyfer darparu gofal cleifion o ansawdd uchel ac o'r herwydd, mae ein Cynllun Ansawdd yn cyd-fynd

â'n [Cynllun Pobl a Diwylliant]() ac yn cael ei arwain gan egwyddorion "Ein Ffordd WAST" a Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023. Mae'r Cynllun Ansawdd yn tynnu sylw at yr angen am gyfeiriad clir, atebolrwydd a diwylliant o welliant parhaus.




Mae diwylliant o ddysgu a thwf yn ffynnu pan fydd staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu ac yn cael cefnogaeth. Pan fydd arweinwyr yn cofleidio arferion tosturiol a chynhwysol, maent yn creu amgylchedd lle mae pobl yn hyderus i leisio eu barn, lle mae heriau'n cael eu datrys yn adeiladol, lle mae gwaith tîm yn ffynnu, a lle mae arloesedd yn cael ei annog. Mae hyn yn ei dro yn grymuso staff a gwirfoddolwyr i ddarparu gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf.

Mae buddsoddi mewn datblygu arweinyddiaeth yn rhoi’r sgiliau i arweinwyr ar gyfer cydweithio, atebolrwydd ac arloesi. Drwy adeiladu partneriaethau effeithiol a cheisio adborth parhaus, rydym yn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn berthnasol ac yn effeithiol, gan greu cylch o welliant sy'n fuddiol i'n staff, gwirfoddolwyr, cleifion a chymunedau.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Ymgorffori arferion arweinyddiaeth dosturiol ar bob lefel, gan sicrhau bod arweinwyr yn modelu cynhwysiant a chreu amgylcheddau lle mae staff a gwirfoddolwyr yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth, eu gwerthfawrogi a'u grymuso. *(Diwylliant)*

- Datblygu a chefnogi arweinwyr ar bob lefel i integreiddio ansawdd i benderfyniadau dyddiol a chynnal safonau gofal uchel. *(Gallu)*
- Meithrin partneriaethau effeithiol gydag undebau llafur, timau mewnol a rhwydweithiau allanol i gyd-gynhyrchu a chydweithio ar fentrau allweddol. *(Capasiti)*
- Cryfhau capasiti rheoli newid i sbarduno arloesedd, trawsnewid ac effeithlonrwydd, gan gofleidio modelau newydd o ofal a darparu gwasanaethau. *(Gallu)*
- Parhau i ddilyn diwylliant iechyd a diogelwch cyfannol aeddfed i alluogi ein staff a'n gwirfoddolwyr i weithio mor rhesymol ymarferol ag y gallant wrth ddarparu gofal rhagorol i'n cleifion.

Drwy ymrwymo i'r camau gweithredu hyn, byddwn yn sefydlu diwylliant lle mae arweinyddiaeth yn ysbrydoli ansawdd, cydweithio a gwelliant parhaus.


## Llywodraethu Ansawdd

Mae ein strwythurau llywodraethu ansawdd yn darparu fforymau integredig lle mae adborth, deallusrwydd a chydweithio yn cael eu croesawu, ac mae arbenigwyr wedi'u halinio ag arweinwyr lleol i greu amgylchedd o welliant parhaus. Drwy dyfu'r perthnasoedd hyn ac ymgorffori Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 yn y ffordd yr ydym yn monitro ac yn gwerthuso ein trawsnewidiad, ein harloesedd a'n gwelliant, gallwn nodi a lliniaru risgiau, gan yrru ansawdd i mewn i bopeth a wnawn. Byddwn yn adolygu ein prosesau Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd i sicrhau eu bod yn gymesur ac yn hawdd eu defnyddio, gan gefnogi barn broffesiynol ein harweinwyr fel offeryn datblygol i nodi risgiau a chanlyniadau ein cynigion. Bydd ymgorffori asesiadau ar bob lefel o welliant a thrawsnewid yn creu amgylchedd sy'n canolbwyntio ar ansawdd a diogelwch.

Er mwyn troi data yn wybodaeth, rydym yn defnyddio Datix Cymru, ein system rheoli pryderon electronig i gofnodi, monitro ac ymchwilio i ddigwyddiadau, adborth, hawliadau, cwestau ac adolygiadau marwolaethau. Mae ansawdd ein mewnwelediadau yn dibynnu ar gywirdeb y data, ei aliniad â meysydd gwasanaeth, a'n gallu i gategoreiddio canfyddiadau ar gyfer dysgu a gwella ar draws y sefydliad. Byddwn yn gwella llywodraethu a chyfluniad ein platfform gwybodaeth i sicrhau ei fod yn hawdd ei ddefnyddio a darparu deunyddiau hyfforddi hygyrch. Bydd y gwelliannau hyn yn galluogi dysgu amserol ac yn cefnogi ein taith gwelliant parhaus.

# Systemau Rheoli Ansawdd

Mae ansawdd wrth wraidd y GIG yng Nghymru, ac o'r herwydd, mae systemau rheoli ansawdd yn hanfodol er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau gofal iechyd yn ddiogel, yn effeithiol ac yn gwella'n barhaus. Maent yn darparu fframwaith strwythuredig ar gyfer monitro a gwerthuso ansawdd gofal, nodi meysydd i'w gwella a chefnogi gweithredu newidiadau angenrheidiol.




Mae system rheoli ansawdd gadarn yn dwyn yr holl wybodaeth sy'n ymwneud ag ansawdd ynghyd i weithredu newid a gwelliant effeithiol mewn gofal. Bydd ein hymrwymiad i ddatblygu ein systemau rheoli ansawdd yn barhaus yn sicrhau bod pob swyddogaeth o fewn y sefydliad yn cyd-fynd â'r nod o ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel a gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar y person.

## Rheoli Ansawdd

Fel rhan o'n gweithgaredd gweithredol, mae'n bwysig cael prosesau rheoli ansawdd clir. Mae'r prosesau rheoli dyddiol hyn wedi'u cynllunio i fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn a sicrhau canlyniadau cynaliadwy trwy greu a chynnal y diwylliant a'r prosesau i'r rhai sydd agosaf at y gwaith weithredu a chadw'r system dan reolaeth, gan atgyfeirio pan fo'n briodol. Mae prosesau rheoli ansawdd yn rhan annatod o'n systemau rheoli ansawdd ac nid ydynt wedi'u cyfyngu i'n darpariaeth gwasanaeth rheng flaen.

Drwy waith ein Grŵp Llywio Ansawdd a Pherfformiad, byddwn yn cefnogi pob tîm i asesu eu systemau rheoli ansawdd a nodi cyfleoedd i wella, gan sicrhau bod gan bob swyddogaeth brosesau rheoli ansawdd cadarn ar waith. Bydd y mewnwelediadau a geir o'r gweithgareddau hyn yn cael eu rhannu drwy ein strwythurau llywodraethu

ansawdd, gan hyrwyddo diwylliant o ddysgu a gwelliant parhaus ar draws yr Ymddiriedolaeth.

Mae ein dull o ddysgu yn un sy'n aeddfedu wrth i ni geisio dysgu o'r hyn sy'n mynd yn dda fel mater o drefn yn ogystal â digwyddiadau niweidiol. Dylai ein dadansoddiad rheoli ansawdd hefyd hyrwyddo dysgu 'dolen ddwbl', gan ein hannog i gwestiynu rhagdybiaethau sylfaenol am rôl draddodiadol y gwasanaeth ambiwlans. Mae'r dull myfyriol hwn yn ein galluogi i herio ffyrdd sefydledig o weithio, gan feithrin arloesedd a thrawsnewid er mwyn diwallu anghenion esblygol ein poblogaeth yn well.

## Gwella Ansawdd

Mae system rheoli ansawdd gadarn yn dibynnu ar brosesau gwella effeithiol i sicrhau bod gofal diogel o ansawdd uchel yn cael ei ddarparu'n gyson, ochr yn ochr â defnydd effeithlon o adnoddau ac enillion cynhyrchiant sy'n cael eu gyrru gan arloesedd a thechnoleg. Mae ymgorffori diwylliant o wella ansawdd yn barhaus yn gofyn am gydbwysedd rhwng egwyddorion rheoli newid cadarn a chymhwyso methodolegau gwella ansawdd profedig. Mae'r methodolegau hyn yn hanfodol i helpu timau i ddeall gwraidd problem yn llawn cyn dylunio a gweithredu newid ystyrlon. Er mwyn ymgorffori'r dull hwn ar draws y sefydliad, rhaid inni greu'r amodau a meithrin y gallu i'n pobl feddwl yn wahanol a gyrru gwelliant. Mae hyn yn cynnwys datblygu hyfforddiant ac arbenigedd, a darparu dysgu profiadol, hyfforddi a mentora - gan rymuso staff a gwirfoddolwyr ar bob lefel i arwain a chyflawni mentrau gwella ansawdd effeithiol.

Dylai gwelliant sefydliadol fynd i'r afael â materion uniongyrchol yn ogystal â newidiadau strategol tymor hwy, gan alluogi newid ystwyth mewn ymateb i nodau neu risgiau penodol ond hefyd mynd i'r afael â gwelliant sy'n seiliedig ar systemau, gan geisio deall a dylanwadu ar systemau gofal iechyd cymhleth a chydgysylltiedig. Byddwn yn mabwysiadu safbwynt systemig drwy fethodoleg gwella ansawdd, gan ystyried ein cymhlethdodau gweithredol, er mwyn creu amgylchedd cefnogol ar gyfer newid drwy ddulliau cyd-gynhyrchu gyda'r rhai sydd angen, yn defnyddio ac yn darparu ein gwasanaethau.

Wrth greu diwylliant o gynhwysiant a thegwch, byddwn yn canolbwyntio ar ddarparu gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf drwy gryfhau cyfathrebu, meithrin empathi,

ac annog gonestrwydd o fewn a rhwng adrannau, sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni gwelliant ansawdd parhaus.

Drwy ddathlu cyfraniadau unigol a thimau a thrwy ymgorffori dulliau cydweithredol, byddwn yn gwella ein cymhwysedd diwylliannol ac yn mynd i'r afael ag anghenion amrywiol yn effeithiol.

6

Chwe cham gweithredu

- Methodoleg gwella ansawdd: Adeiladu methodoleg gwella sefydliadol o amgylch egwyddorion a fframweithiau'r Sefydliad Gwella Gofal Iechyd.
- Meithrin capasiti ac amodau: Datblygu'r capasiti a'r amodau i staff a gwirfoddolwyr feddwl yn wahanol a chydbwyso egwyddorion rheoli newid â methodolegau gwella ansawdd.

- Hyfforddiant gwella ansawdd: Darparu hyfforddiant sy'n cynnwys dadansoddi data sy'n rhoi'r sgiliau angenrheidiol i staff ar gyfer gwelliant parhaus ac yn creu system welliant cefnogol.
- Golwg systemig ar welliant: Defnyddio methodolegau gwella ansawdd i fabwysiadu safbwynt systemig, gan ystyried cymhlethdod a dulliau cyd-gynhyrchu sy'n cynnwys yr holl randdeiliaid.
- Datblygu sgiliau a grymuso: Datblygu sgiliau i staff ar bob lefel i gyflawni prosiectau gwella ansawdd a dod yn fwy grymus i yrru newid.
- Dangos effaith: Datblygu systemau i ddangos effaith gwelliannau ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan gynnwys prosiectau bach i ymyriadau ar raddfa fawr.

## Sicrhau Ansawdd

Mae ein systemau sicrhau ansawdd yn sicrhau bod y gofal a'r gwasanaethau a ddarparwn i'n cleifion a'n defnyddwyr gwasanaeth yn ddiogel ac yn bodloni'r safonau sydd eu hangen arnom. Mae'r safonau hyn wedi'u halinio â Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023. Drwy sicrhau ansawdd, rydym yn monitro ein prosesau

a'n gweithdrefnau gan sicrhau ein bod yn nodi cyfleoedd i ddysgu a gwella yn y gwasanaethau a ddarparwn, gan ddilyn mentrau gwella ansawdd sy'n monitro gweithgaredd i sicrhau bod gwelliant wedi'i gyflawni. Daw sicrwydd mewn sawl ffurf gan gynnwys archwilio mewnol ac allanol, arolygu, adolygiad gan gymheiriaid neu adrodd statudol/rheoleiddiol. Gall hyd yn oed fod ar ffurf adborth gan ein cleifion a'n defnyddwyr gwasanaeth.

Yn unol â'r Ddyletswydd Ansawdd, rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod gennym systemau rheoli ansawdd cadarn ar draws holl swyddogaethau ein sefydliad, ac rydym yn parhau i gefnogi ein timau i ddatblygu a gwella eu prosesau sicrhau ansawdd yn barhaus. Mae hyn yn golygu y byddwn yn gweithio gyda thimau ar draws y sefydliad i sicrhau bod gennym ddatganiadau ansawdd clir ar waith i ddisgrifio beth mae ansawdd yn ei olygu ar gyfer pob swyddogaeth. Byddwn yn cefnogi hunanasesiadau sicrhau ansawdd i nodi gwelliannau y gallwn eu gwneud yn ein prosesau mewnol a byddwn yn cefnogi datblygu gwybodaeth a data deallusrwydd i'n helpu i fonitro ein gwasanaethau yn unol â Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023. Bydd ein hasesiadau o'r effaith ar ansawdd yn llywio ein safonau monitro a gwerthuso, gan roi sicrwydd ein bod wedi cyflawni'r gwelliannau a nodir, felly byddwn yn parhau i ddatblygu ein prosesau asesiadau o'r effaith ar ansawdd i'w gwneud yn gliriach ac yn haws i arweinwyr ac arloeswyr ystyried effeithiau ein penderfyniadau ar ein pobl, ein cleifion a'n rhanddeiliaid. Drwy wella ein prosesau sicrhau ansawdd yn barhaus, byddwn yn helpu i leihau risgiau, gwella canlyniadau ac adeiladu ymddiriedaeth y cyhoedd.

## Cynllunio Ansawdd

Mae'r Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad yn cynnig dull cyson o wella ansawdd gwasanaethau a chanlyniadau cleifion drwy fonitro a gwella perfformiad ar draws lefelau unigol, tîm a sefydliadol.

Yn ganolog i'r fframwaith mae rôl cynllunio effeithiol wrth yrru gwelliant. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau strategol sy'n cyd-fynd â phwrpas cyffredinol yr Ymddiriedolaeth, Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, a rhaglenni mwy manwl neu strategaethau ar lefel cyfarwyddiaeth. Mae'r fframwaith hefyd yn sicrhau cydlyniad ar lefel unigol drwy adolygiadau datblygiad personol, gan gysylltu cyfraniadau staff yn uniongyrchol â nodau sefydliadol.

Bydd y Grŵp Llywio Rheoli Ansawdd a Pherfformiad yn cefnogi timau i werthuso eu systemau rheoli ansawdd, nodi meysydd i'w gwella, a sefydlu prosesau rheoli ansawdd cadarn. Bydd mewnwelediadau o'r gweithgareddau hyn yn cael eu rhannu drwy ein strwythurau llywodraethu ansawdd i sbarduno dysgu a gwelliant parhaus ar draws y sefydliad.



Mae gweithredu dull cynllunio ansawdd yn sicrhau cydymffurfedd â Deddf Iechyd a Gofal (Ansawdd ac Ymgysylltu) Cymru, gan hwyluso gwneud penderfyniadau strategol sy'n ystyried y 12 safon ansawdd iechyd a gofal. Fel sefydliad, byddwn yn gwerthuso ein perfformiad yn erbyn y safonau hyn i nodi cyfleoedd i wella, meithrin dysgu, a sefydlu mecanweithiau monitro. Ar ben hynny, byddwn yn gwella ein prosesau asesiadau o’r effaith ar ansawdd i ddarparu eglurder a symlrwydd, gan alluogi arweinwyr ac arloeswyr i asesu effeithiau ein penderfyniadau ar ein pobl, cleifion a rhanddeiliaid.

‘Sicrhau Rhagoriaeth’ yw fframwaith strategol hirdymor yr Ymddiriedolaeth sy’n nodi gweledigaeth y sefydliad ar gyfer y dyfodol hyd at 2030. Mae'r strategaeth yn mynegi uchelgais y sefydliad i symud oddi wrth gael ei ystyried yn 'wasanaeth ambiwlans a chludiant traddodiadol' i ddod yn ddarparwr gofal o ansawdd uchel y gellir ymddiried ynddo, gan sicrhau bod cleifion yn derbyn y 'cyngor a'r gofal cywir, yn y lle iawn, bob tro', gyda phwyslais cynyddol ar reoli a datrys mwy o ofal yn agosach at adref i wella canlyniadau cleifion, ond bod yno i gleifion ag anaf neu salwch difrifol sydd angen gofal brys ar unwaith. Mae'r strategaeth yn darparu gweledigaeth glir ar gyfer y sefydliad cyfan ac felly mae'n canolbwyntio ar esblygiad parhaus ein Model Gwasanaeth Clinigol, ynghyd â newidiadau ar draws y sefydliad ehangach. Byddwn yn parhau i ddefnyddio asesiadau effaith ansawdd i lywio ein prosesau gwneud penderfyniadau yn y maes hwn. Mae'r asesiadau hyn yn cynorthwyo i nodi effeithiau ein hymdrechion trawsnewid, gan ein galluogi i liniaru niwed posibl i gleifion a staff,

yn ogystal â chydnabod risgiau sy'n effeithio ar ein sefydliad a chymuned ehangach GIG Cymru.

Datblygwyd ein strategaeth hirdymor gyda mewnbwn gwerthfawr gan staff, defnyddwyr gwasanaethau, a rhanddeiliaid ehangach y system iechyd. Mae'n mynd i'r afael â heriau allweddol ar draws Gwasanaethau Meddygol Brys, Gwasanaethau Cludiant Cleifion Di-frys, a GIG 111 Cymru. Wedi'i lywio gan dueddiadau demograffig a data gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae hefyd yn adlewyrchu disgwyliadau a phryderon y cyhoedd. Mae'r strategaeth yn cyd-fynd â pholisïau cenedlaethol allweddol, gan gynnwys *Cymru Iachach*, *Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Fframwaith Ansawdd GIG Cymru,* a blaenoriaethau strategol ein comisiynwyr.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae'r strategaeth wedi'i hail-lunio mewn ymateb i'r cyd-destun ôl-Covid ac mae bellach wedi'i strwythuro o amgylch chwe amcan strategol. Mae ansawdd yn parhau i fod yn ganolog - yn gweithredu fel sbardun allweddol yn ein hymrwymiad i fod yn sefydliad sy’n seiliedig ar ansawdd, dan arweiniad clinigol. Wrth i ni gyrraedd canol y broses o gyflawni'r strategaeth hon, byddwn yn dechrau adolygiad ffurfiol o *Sicrhau Rhagoriaeth* yn 2026/27, gan ymgysylltu â rhanddeiliaid i lunio ein cyfeiriad yn y dyfodol a'n huchelgeisiau sefydliadol.


Bydd ein Cynllun Ansawdd yn chwarae rhan hanfodol wrth lunio'r nodau strategol hyn ar gyfer y dyfodol. Drwy gynnal asesiad o anghenion iechyd y boblogaeth ac ystyried newidiadau demograffig rhagamcanol, byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau wedi'u cynllunio i ddiwallu anghenion iechyd presennol a rhai'r dyfodol ledled Cymru.

Mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cyflawni ein huchelgeisiau strategol mewn dull graddol dros gyfnod o dair blynedd, yn unol â chanllawiau cynllunio GIG Cymru a bwriadau comisiynu ein partneriaid. Mae'n cynnwys set ddiffiniedig o ganlyniadau a metrigau sy'n seiliedig ar ansawdd, wedi'u fframio o amgylch y cwestiynau 'sut olwg sydd ar dda?' a 'beth fydd yn wahanol?'. Mae'r canlyniadau hyn wedi llywio datblygiad cynlluniau gwella wedi'u targedu, a gyflwynir drwy raglenni trawsnewid, prosiectau a methodolegau gwella ansawdd. Mae'r dull strwythuredig hwn yn galluogi gwerthusiad parhaus o gynnydd yn erbyn ein targedau i’w cyflawni ac yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein canlyniadau bwriadedig.




Mae'r ddarpariaeth yn cael ei llywio drwy ein rhaglenni trawsnewid sefydliadol a'i chefnogi gan gynlluniau ar lefel cyfarwyddiaethau. Mae'r cynlluniau cyfarwyddiaeth hyn yn darparu cyfleoedd i wella ansawdd gwasanaethau yn fewnol ac yn allanol a gallant ymgorffori canfyddiadau o hunanasesiadau rheoli ansawdd a pherfformiad. Ar lefel unigol, anogir staff i alinio eu hamcanion personol â chynlluniau cyfarwyddiaeth a chynlluniau sefydliadol, gan gryfhau'r cysylltiad rhwng cyfraniadau unigol a blaenoriaethau strategol.

**'Cyflawni Rhagoriaeth' – Ein Strategaeth hirdymor**




# Cynhwysiant a Thegwch

Mae cynhwysiant a thegwch yn hanfodol wrth ddarparu gofal tosturiol sy'n canolbwyntio ar y claf. Mae arferion tosturiol hefyd yn hanfodol i feithrin a chefnogi gweithlu iach i ddarparu ein gwasanaethau. Nod ein Cynllun Ansawdd yw bod pob menter ansawdd yn cyd-fynd ag amcanion cyffredinol ein Cynllun Cydraddoldeb

Strategol sy'n adlewyrchu anghenion amrywiol ein gweithlu a'n cleifion, gan greu cydraddoldeb o ran mynediad, canlyniadau a phrofiadau.

Drwy ddefnyddio asesiadau effaith ansawdd mewnosodedig a thrwy ymgorffori dull cydweithredol o drawsnewid a gwella, byddwn yn ystyried anghenion ein staff a defnyddwyr ein gwasanaeth. Cynhelir asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb mwy manwl i sicrhau bod ein holl benderfyniadau strategol yn ystyried yr effeithiau posibl ar bobl sydd dan anfantais. Mae hyn yn cynnwys ein defnyddwyr gwasanaeth sydd â nodwedd warchodedig, gofalwyr di-dâl, siaradwyr Cymraeg, cyn-filwyr, a phobl sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol. Mae adborth gan bobl â phrofiad bywyd, gofalwyr a'r rhai ag anghenion cymhleth yn dweud wrthym am bwysigrwydd gofal personol yn enwedig pan gaiff ei gysylltu â phrotocolau asesu.

Mae cydnabod a dathlu cyfraniadau unigol a thîm yn meithrin diwylliant o gynhwysiant, lle mae pawb yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a gallant ysgogi gwelliant ansawdd parhaus. Mae gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn gwella cymhwysedd diwylliannol ac yn ein galluogi i ddeall anghenion a heriau unigol ein defnyddwyr gwasanaeth yn well.

**Byddwn yn gwneud y canlynol:**

- Sicrhau bod ein polisïau a'n cynlluniau yn diwallu anghenion ein holl ddefnyddwyr gwasanaethau a'r bobl yr ydym yn dibynnu arnynt i ddarparu'r gwasanaethau hyn drwy gynnal asesiadau o'r effaith cadarn *(Capasiti / Dylunio Gwasanaethau Teg)*
- Gweithredu mecanweithiau cymorth i ddenu a chadw gweithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu drwy hyrwyddo cynhwysiant a chynnig cyfleoedd cyfartal ar gyfer twf a llwyddiant *(Capasiti / Bod yn Gyflogwr o Ddewis)*
- Meithrin cymhwysedd diwylliannol drwy hyfforddiant wedi'i dargedu, gan helpu staff a gwirfoddolwyr i ddeall y rhwystrau y mae grwpiau cleifion amrywiol yn eu hwynebu ee, y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, y rhai â cholled synhwyraidd, anableddau dysgu, neu heriau corfforol a chymdeithasol eraill *(Gallu / Creu* Cynghreiriaeth*)*
- Dathlu amrywiaeth a chreu cyfleoedd teg i bob aelod o staff a gwirfoddolwr gyfrannu, ffynnu, a theimlo ymdeimlad o berthyn *(Diwylliant / Arwain trwy Esiampl)*

Drwy ymgorffori cynhwysiant a thegwch ym mhob agwedd ar arweinyddiaeth a darparu gwasanaethau, byddwn yn creu sefydliad lle mae pob unigolyn, cleifion a staff fel ei gilydd, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu parchu, a'u grymuso i gyfrannu at ganlyniadau o safon.

## Technoleg ac Arloesi

Mae ein Cynllun Digidol yn disgrifio ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i dechnolegau digidol o safon wrth gefnogi gwneud penderfyniadau clinigol, hwyluso profiad di-dor i gleifion, ac ategu darpariaeth gwasanaeth rhagorol. Yn y DU, mae gwasanaethau brys fel Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn aml yn cael eu hystyried yn 'gyfoethog o ran data ond yn dlawd o ran gwybodaeth' - gyda mwy o ymdrech yn aml yn cael ei gwario ar rannu data y tu allan i'r sefydliad gyda chomisiynwyr, partneriaid a rhanddeiliaid ar gyfer monitro perfformiad a gwneud penderfyniadau ymhellach i lawr, gan adael capasiti cyfyngedig i ddehongli'r ffynonellau data cyfoethog er mwyn deall ansawdd ac effaith gweithredol a chlinigol yn well. Fodd bynnag, yn unol ag uchelgeisiau Llywodraeth Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru o Adnodd Data Cenedlaethol canolog, mae Cynllun Digidol yr Ymddiriedolaeth yn esbonio sut y byddwn yn sicrhau bod y data a gasglwn yn cydymffurfio â safonau gwybodaeth ac yn rhannu data yn ddiogel, yn foesegol ac yn gyfrinachol gyda'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phartneriaid i alluogi gwell dealltwriaeth o brofiad, canlyniadau a risg cleifion ar draws GIG Cymru.

Wrth i'r Ymddiriedolaeth esblygu i fod yn fwyfwy seiliedig ar dystiolaeth yn ei phroses gwneud penderfyniadau a'i dull gweithredu, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal ymddiriedaeth yn ansawdd yr wybodaeth a'r dechnoleg sy'n galluogi'r penderfyniadau hyn.

Yn dilyn cyflwyno'r cofnod gofal cleifion electronig (ePCR), rydym bellach yn dwyn ynghyd y data gweithredol, clinigol a data'r system ehangach i driongli deallusrwydd a deall diogelwch a chanlyniadau cleifion. Yn ogystal, mae gwybodaeth ePCR o werth i'n gweithlu clinigol, gan helpu unigolion i nodi meysydd ar gyfer datblygiad proffesiynol a deall effaith eu penderfyniadau ar ofal o ansawdd. Byddwn yn adolygu ein ffurfweddiad ePCR i sicrhau ei fod yn cefnogi ein gweithlu clinigol yn well wrth ddarparu ffynhonnell gyfoethog o ddeallusrwydd data i gefnogi ein hymdrechion i ddeall ein rôl mewn anghydraddoldeb iechyd. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddwn hefyd yn archwilio sut y gallwn wella gwelededd asesiadau clinigol a gwneud

penderfyniadau i lywio cynlluniau triniaeth a chynllunio gofal, er mwyn sicrhau bod ein camau gweithredu yn effeithlon ac yn effeithiol.

Mae'r Cynllun Digidol hefyd yn esbonio sut mae ein dull o ymdrin â sylfeini digidol, trawsnewid digidol ac arloesedd digidol yn canolbwyntio ar ddiwallu anghenion amrywiol ein cymunedau (cleifion, y cyhoedd a'r gweithlu) mewn ffyrdd mwy hygyrch ac ymatebol.  Mae llawer o'r prosiectau yn ein Cynllun Digidol pum mlynedd yn dangos yn uniongyrchol yr ymrwymiad i wasanaethau, gofal a gwneud penderfyniadau o safon, er enghraifft:

- Hyrwyddo sgiliau digidol ar gyfer ein gweithlu - meithrin gweithlu hyderus sydd â sgiliau llythrennedd digidol ar gyfer nawr a chenedlaethau'r dyfodol.
- Mesur effaith drwy ddata meintiol ac ansoddol, yn ogystal ag ymgysylltu â'r cyhoedd - cefnogi esblygiad y Fframwaith Rheoli Ansawdd a Pherfformiad yn ogystal â chydweithrediadau ar draws GIG Cymru ar gyfer Diogelu Iechyd a Rheoli Iechyd y Boblogaeth.
- Mabwysiadu safonau rhyngweithredu ar draws y system i sicrhau bod gwybodaeth a theithiau cleifion yn llifo'n ddi-dor, megis yr integreiddiadau â Phorth Clinigol Cymru a Gwasanaeth Demograffig Cymru.


## Monitro Gwasanaeth Ansawdd

Mae'r Ymddiriedolaeth yn wasanaeth comisiwn, gyda'i thri phrif wasanaeth: GIG 111 Cymru, Gwasanaethau Meddygol Brys (999) a Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys (NEPTS), pob un wedi'i gomisiynu gan y Cydbwyllgor Comisiynu.











Mae pob un o'r tri gwasanaeth hyn yn cael ei gomisiynu ar hyd llwybr cleifion pum cam, sy'n sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar y person wrth fonitro ansawdd y gwasanaethau a ddarparwn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod y data sy'n cael ei fonitro drwy'r llwybrau hyn bron yn gyfan gwbl yn seiliedig ar amser, wedi'i ategu gan rai dangosyddion clinigol sy'n mesur cymhwyso "bwndeli" hy, proses glinigol.

Wrth i'r Ymddiriedolaeth symud trwy Drawsnewid y Model Clinigol, byddwn yn adolygu ein metrigau i sicrhau ffocws parhaus a gwella ar y canlynol:



Mae'n arbennig o bwysig ein bod yn alinio â'n Cynllun Digidol i sicrhau ein bod:

- Â data cleifion cysylltiedig ar draws GIG Cymru
- Yn deall canlyniadau cleifion ar draws llwybr cyfan y claf ac nid dim ond y pum cam sy'n hanfodol i ni fel gwasanaeth ambiwlans.

I gyflawni hyn, byddwn yn cysylltu â'n comisiynwyr ar newidiadau arfaethedig gan sicrhau ein bod yn gweithio ar y cyd ac yn cael ein cefnogi gan set fwy manwl o ddata.

Sefydlwyd y Cydbwyllgor Comisiynu yn ddiweddar ym mis Ebrill 2024 ac felly, mae'n parhau i ddatblygu ei fecanweithiau llywodraethu. Maes datblygu disgwyliedig yw creu Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch y bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu gwybodaeth amdano ar lwybrau cleifion y tu hwnt i fetrigau sy'n seiliedig ar amser. Drwy feithrin perthynas gydweithredol rhwng yr Ymddiriedolaeth, y Cydbwyllgor Comisiynu a'r byrddau iechyd ar draws GIG Cymru, gallwn symud tuag at ddull mwy integredig o ofal cleifion, gan fynd i'r afael nid yn unig â'r anghenion meddygol uniongyrchol ond hefyd â phrofiadau ein cleifion i gael effaith gadarnhaol ar ein perthynas â'n poblogaeth.